Adroddiad Cyfarfod 05:03:14
Cinio Gŵyl Ddewi

Croesawodd Jen y llywydd nifer dda o'r aelodau i'r Caban, Brynrefail i ddathlu Gwyl Ddewi nos Fercher 5ed Mawrth. Cydymdeimlwyd â Bet a gollodd ei chwaer yn ddiweddar. Dymunwyd yn dda i Rhian fu'n wael yn ddiweddar, gan ddymuno adferiad llwyr iddi ac y bydd yn ôl yn y gangen yn fuan. Dymunwyd yn dda hefyd i Rhys mab Rhian sy'n priodi efo Emily dydd Sadwrn y 9fed o Fawrth.

Dathlodd dwy aelod benblwyddi priodas yn ddiweddar, Eirlys a Brian Sharpe, hanner can mlynedd a Liz a John Evans, hanner cant a phum o flynyddoedd. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau deulu.

Dymunwn yn dda i Iolo mab Ellen Ellis sydd wedi dechrau ar swydd newydd yn Hong Kong. Dymunwn bob llwyddiant iddo.

Cafwyd llawer o hwyl yn y noson Bowlio Deg yn ddiweddar, ni ddaeth y tim i'r brig, ond cawsom lawer o hwyl a bwyd da .

Dymunwyd yn dda i holl blant y pentre fydd yn cystladlu yn eisteddfodau'r Urdd – yn canu, llefaru, corau, offerynwyr, dawnsio a gwaith celf.

Adloniant ar y noson oedd dau o hogia'r pentre,sef Gethin Griffith a Gwilym Rhys. Mae Gethin yn ei ail flwyddyn yn y Brifysgol ym Mangor a Gwilym newydd ddechrau fel prentis gwneud clocsiau yng Nghricieth. Gwelsom y ddau ar y rhaglen 'Cân i Gymru' yn ddiweddar, y ddau wedi mynd i'r rownd derfynnol, Gethin wedi cyd gyfansoddi y gân 'Dydd yn Dod' efo Ifan Davies a Gwilym wedi cyd -gyfansoddi y gân 'Ben Rhys'. efo'i fam Sian. Mae Gwilym hefyd yn brif ganwr 'Y Bandana' ac yn canu efo'i ddwy chwaer Elan a Marged yn y grwp 'Plu'.

Cafwyd gwledd o noson –bwffe blasus iawn wedi ei baratoi gan Aled y cogydd, a chanu hwyliog iawn gan Gethin a Gwilym. Rydym yn hynod ffodus fod y ddau wedi bod mor barod i ddod atom ac wedi rhoi cyfle i ni glywed eu doniau cerddorol anhygoel.

Diolchiwyd iddynt ar ran y gangen gan Anne Elis, a deimlai'n falch iawn ohonynt gan iddi fod yn athrawes i'r ddau tra roeddynt yn Ysgol Bethel. Mae cysylltiad gan y ddau hefyd â Merched y Wawr gan fod nain Gethin yn aelod gweithgar iawn yn y gangen ym Methel ac yn is ysgrifennydd eleni a

nain Gwilym, Zonia Bowen yn un o sylfaenwyr y Mudiad yn Parc y Bala yn 1967.

Enilliwyd y raffl gan Mair Read, Eirlys Sharpe, a Gwyneth Jones

Bydd cyfarfod nesaf y gangen yn festri Cysegr nos Fercher Ebrill 9fed am 7.30 yng nghwmni Geraint Thomas, Panorama. Estynir croeso cynnes i'r cyfarfod i unrhyw un sy'n ddysgwr/dysgwraig i ymuno â ni ar y noson i gael cyfle i sgwrsio dros baned.

Mae lluniau o'r noson ar y wefan www.mywbethel.org.uk